



LEFEL 3 DIPLOMA

4463N60-1A

MEHEFIN 2025

GWYDDOR FEDDYGOL

UNED 6: Astudiaeth Achos Feddygol

I'w ddefnyddio gydag arholiad

Uned 6: Astudiaeth Achos Feddygol

Erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i'w defnyddio yn yr arholiad canlynol ar ddydd Llun, 2 Mehefin 2025

Lefel 3 Diploma mewn Gwyddor Feddygol

Clefyd Lyme

Mae clefyd Lyme yn haint sy'n cael ei achosi gan y bacteriwm *Borrelia*. Mae trogod wedi'u heintio (*infected ticks*) yn gallu ei drosglwyddo i fodau dynol. Arachnidau yw trogod, ac maen nhw'n glynu (*attach*) eu hunain wrth anifeiliaid mwy o faint, gan gynnwys bodau dynol, ac yn bwydo ar eu gwaed. Maen nhw'n byw mewn ardaloedd sydd â llystyfiant dwys (*dense vegetation*) fel coetiroedd, rhostiroedd a glaswellt hir.



Symptomau clefyd Lyme

Mae brech grwn neu hirgrwn, siâp llygad tarw yn gallu ymddangos o gwmpas brathiad trogen hyd at 3 mis ar ôl cael eich brathu gan drogen wedi'i heintio, ond mae fel arfer yn ymddangos o fewn 1 i 4 wythnos.

Mae rhai pobl yn cael symptomau tebyg i ffliw rai dyddiau neu wythnosau ar ôl cael eu brathu gan drogen wedi'i heintio, gan gynnwys:

- tymheredd uchel, neu deimlo'n boeth ac yn rhylllyd (*shivery*)
- cur pen (*headache*)
- poen yn y cyhyrau a'r cymalau
- blinder a diffyg egni

Mae rhai pobl sydd â chlefyd Lyme yn datblygu symptomau mwy difrifol fisoedd neu flynyddoedd yn ddiweddarach, gan gynnwys:

- poen a chwyddo mewn cymalau
- problemau â'r nerfau, fel poen neu ddiffyg teimlad (*numbness*)
- problemau â'r galon
- trafferth gyda'r cof neu ganolbwyntio



Rhoi diagnosis o glefyd Lyme a thrin y clefyd

Mae prawf gwaed ELISA yn gallu cael ei ddefnyddio i ganfod gwrthgyrff yn erbyn clefyd Lyme. Mae'r driniaeth yn cynnwys cwrs o wrthfotigau fel docsiseiclin. Mae'n bosibl y bydd rhai pobl sydd â symptomau difrifol yn gorfod cael gwrthfotigau mewnwythiennol (*intravenous*).

Mae parasetamol o fferyllfa'n gallu cael ei ddefnyddio i helpu gyda phoen a chwyddo mewn cymalau.

Sut i osgoi brathiadau trogod

- gorchuddio'r croen wrth gerdded yn yr awyr agored a gwrthio trowsus i mewn i sanau
- defnyddio sylwedd ymlid pryfed (*insect repellent*) ar y dillad a'r croen
- aros ar lwybrau clir lle mae'n bosibl
- gwisgo dillad lliw golau fel ei bod yn haws gweld trogod a'u brwsio nhw i ffwrdd

Epidermolysis Bullosa (EB)

Epidermolysis Bullosa yw'r enw ar grŵp o gyflyrau croen poenus sy'n achosi i'r croen fynd yn frau (*fragile*) iawn. Nid yw'r cyflwr yn gyffwrdd-ymledol (*contagious*) – does dim modd ei drosglwyddo drwy gyffwrdd. Mae'n cael ei etifeddu drwy fwtaniad mewn genyn sy'n atal yr haenau o groen rhag rhwymo â'i gilydd, sy'n golygu bod pob trawma neu ffrithiant yn gallu achosi pothelli (*blisters*) poenus. Mae hyn yn arwain at friwiau (*wounds*) agored a chreithiau. Mae hefyd yn gallu effeithio ar leininau (*linings*) ac organau mewnol.



Symptomau EB

Dyma rai o symptomau cyffredin pob math o EB:

- croen sy'n ffurfio pothelli'n hawdd, yn enwedig ar y dwylo ac ar wadnau (*soles*) y traed
- croen mwy trwchus sy'n gallu creithio
- ewinedd mwy trwchus
- problemau anadlu difrifol

Rhoi diagnosis o EB

Fel arfer, mae diagnosis o EB yn cael ei roi i fabanod a phlant ifanc. Byddan nhw'n cael eu hatgyfeirio (*referred*) at ddermatolegydd fydd yn cymryd sampl bach o'r croen i'w brofi. Bydd hyn yn helpu i ddarganfod y math o glefyd a pha mor ddifrifol ydyw.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl profi baban heb ei eni am y clefyd. Os yw'r prawf yn cadarnhau EB, bydd y rhieni'n cael cynnig cwnsela a chyngor.

Trin EB

Does dim iachâd (*cure*) ar gyfer EB ar hyn o bryd, ond mae triniaeth yn gallu helpu i leddfu (*ease*) a rheoli'r symptomau. Mae rheoli EB yn gallu cynnwys:

- popio pothelli gan ddefnyddio nodwydd ddi-haint
- defnyddio gorchuddion amddiffynnol

Mae'n bosibl defnyddio meddyginiaethau i drin yr haint neu i leddfu poen. Efallai bydd angen llawdriniaeth os yw EB yn achosi i'r oesoffagws, y tracea neu'r bronciolynnau fynd yn fwy cul.

Yn aml, bydd anghenion cymhleth gan blant sydd ag EB, ac mae'n bosibl y bydd angen iddyn nhw gael eu trin gan dîm amrywiol o arbenigwyr meddygol, gan gynnwys:

- dermatolegwyr
- deietegwyr
- ffisiotherapyddion
- arbenigwyr chwarae
- nyrsys arbennig i gydlynu'r tîm

Mae ymchwil ar drin EB yn cynnwys edrych ar rôl canabinoidau o ran lleddfu poen.

Anorecsia

Mae anorecsia yn anhwylder bwyta a chyflwr iechyd meddwl difrifol. Mae pobl sydd ag anorecsia'n ceisio cadw eu pwysau mor isel â phosibl drwy beidio â bwyta digon o fwyd, gwneud gormod o ymarfer corff, neu'r ddau. Mae hyn yn gallu eu gwneud nhw'n sâl iawn gan eu bod nhw'n dechrau llwgu. Yn aml, bydd ganddyn nhw ddelwedd afluniedig o'r corff (*distorted body image*), a byddan nhw'n meddwl eu bod nhw'n dew hyd yn oed pan maen nhw dan bwysau (*underweight*).

Mae dynion a menywod o unrhyw oed yn gallu datblygu anorecsia.

Arwyddion a symptomau anorecsia

Mae'r arwyddion a'r symptomau'n cynnwys:

- BMI sy'n is na'r disgwyl
- colli prydau bwyd, bwyta ychydig iawn neu'n osgoi bwyd
- delwedd afluniedig o'r corff
- cymryd atalyddion archwaeth (*appetite suppressants*) i leihau chwant bwyd, neu garthyddion (*laxatives*) i garthu mwy
- mislifoedd yn stopio mewn menywod sydd ddim wedi cyrraedd y menopos, neu ddim yn dechrau mewn menywod mwy ifanc a merched
- problemau corfforol, fel teimlo'n benysgafn neu'n chwil (*dizzy*), colli gwallt neu groen sych

Trin anorecsia

Y cam cyntaf yw cael help a chefnogaeth. Mae'n bosibl gwella o anorecsia, ond mae'n gallu cymryd amser. Bydd y cynllun triniaeth wedi'i deilwra i'r unigolyn a gallai gynnwys:

- cefnogaeth arbenigol a therapi ymddygiadol
- therapi teulu, yn enwedig i rai dan 18 oed
- meddyginiaeth, weithiau'n osgoi rhoi'r feddyginiaeth drwy'r geg, i helpu â rhai o'r risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig ag anorecsia

Risgiau iechyd anorecsia

- camfaethiad (*malnutrition*)
- osteoporosis
- problemau ffrwythlondeb
- problemau â'r galon a phibellau gwaed
- problemau â'r ymennydd a'r nerfau
- problemau â'r arennau a'r coluddion (*bowels*)
- anaemia
- system imiwnedd fwy gwan